## MAIR ELUNED PRITCHARD a'r gwladwr oedd o flaen – neu ar ôl – ei oes

# BUCHEDD ANNER DEW HU GADARN

Yn rhifyn Nadolig 1987 o *Y Casglwr* y croesodd Hu Gadarn fy llwybr am y tro cyntaf. Nid yr un hwnnw sydd â sôn am ei orchestion yn Nhrioedd Ynys Prydain, ond yn hytrach yr un a gafodd y fraint, gydag Owain Gwyrfai a Ioan Arfon, o gadeirio Alafon yn Eisteddfod Frenhinol Ynys Enlli yn 1873. Ef, hefyd a gafodd y fraint o lywyddu cyfarfod cyntaf yr Eisteddfod anghyffredin honno ar fwrdd y llong a gludai'r eisteddfodwyr o Gaernarfon i Enlli.

I'r *Casglwr* a Mrs Iona Roberts y mae imi'r diolch am y wybodaeth uchod ac am fy nghyflwyno i'r Hu Gadarn hwn 'o Glynnog'.

Wedi holi amryw o drigolion hynaf plwyf Clynnog yn ei gylch, yr oedd yn amlwg fod enw Hu Gadarn yn hollol anghyfarwydd iddynt. Nid oedd unrhyw gof amdano yn parhau yn yr ardal. Yn y llyfr *Nant Nantlle* gan Y Parch W. R. Ambrose, y cefais y llygedyn cyntaf o oleuni arno a deall mai yn Nhŷ Mawr y trigai. Un o ffermydd mwyaf plwyf Clynnog yw Tŷ Mawr yn gorwedd ar gyrion ardal Brynaerau.


*'Y mae Hu Gadarn yn enwog, nid yn unig ar gyfer ei ychain bannog, eithr hefyd ar gyfrif ei chwaeth lenyddol; a medr ei wraig Gwenhonwy, nid yn unig feirniadu gweithiau ein prif awduron yn Gymraeg a Saesoneg, eithr hefyd ymostwng i ymdrechu am gamp o wneud pâr o hosanau mewn Eisteddfod Genedlaethol a gorchfygu.'*

O chwilota yn y cyfrifiadau a'r cofrestri plwyf daeth yn amlwg mai William a Catherine Griffith oedd y pâr hynod a drigai yn Nhŷ Mawr am ddeugain mlynedd ganol y ganrif ddiwethaf. Yr oedd y ddau yn enedigol o Lŷn, y naill o blwyf Aberdaron a'r llall o blwyf Llanfaelrhys. Ymbriododd y ddau yn eglwys Llanfaelrhys ar y 17eg o Fawrth, 1837.

* * *

YMHLITH RHESTR o aelodaeth capel y Methodistiaid Calfinaidd ym Mrynaerau am 1861 canfuwyd enw Catherine Griffith, Tŷ Mawr, ymhlith yr un aelod a thrigain, ond nid oedd sôn am ei gŵr.

Nid oes sôn amdano, chwaith, mewn perthynas â chapel Brynaerau gan William Hobley yn *Hanes Methodistiaeth Arfon*, ond fe nodir ei fod yn un o'r beirniaid ar y traethawd amaethyddol yng Nghyfarfod Llenyddol Capeli Dosbarth Clynnog Ddydd Llun y Sulgwyn 1859. Un o'r cyfarfodydd y bu



*Hu Gadarn (ar y dde) a'r heffer dew.*

Eben Fardd yn bennaf gyfrifol am eu sefydlu oedd hwn.

Teflir goleuni ar ddaliadau crefyddol Hu Gadarn yn rhifyn Hydref 1901 o *Y Genhinen* lle dywed Hywel Tudur fod William Griffith yn ymneilltuwr selog. Â ymlaen i ddweud:

*'Gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yr oedd yn gwrando - gyda hwy y bu ei hendaid, Morgan Griffith o Fodwrdda, yn pregethu. Oherwydd yr erlid fu ar hwnnw, yr oedd Hu Gadarn yn elyn anghymodlawn i'r Eglwys Wladol. Nid oedd* **dim** *gwaeth yn ei olwg nag eglwys wladol, na* **neb** *gwaeth na pherson. Ond nid oedd yn aelod gyda'r un enwad, - yr oedd rhyw ddiffygion yn perthyn iddynt i gyd.'*

Ceir disgrifiad ohono gan ohebydd yn *Yr Herald Cymraeg* yn yr adroddiad am ei angladd:

*'Pe dymunasai tramorwr weled gwir* **specimen** *o Gymro, tebyg i'r "cewri oedd ar y ddaear y dyddiau hynny" pan gadwai Glyndwr a Llewelyn y Sais o'u gwlad dyma fuasai yn ei foddio - un golwg ar Hu Gadarn ... yn ŵr talgryf, llydan gefn, boch-goch, gwisgi, yn cario ffon cyhyd a llawer dyn o'r genhedlaeth hon, yn gwisgo côb a wnai ddefnydd dwy i lawer un a het a orchuddiai ddeuben gweddol fawr.'*

Mae hanes amdano ar adeg etholiad yn tanio brwdfrydedd y dorf ar faes Caernarfon drwy arwain carfan o gefnogwyr Love Jones-Parry, Madrun, i fwrw eu pleidlais. Ar un achlysur daeth y bonheddwr hwnnw â ffon ddraenen ddu yn anrheg iddo o Ynys Manaw.

* * *

YSTYRIAI ei hun yn Gymro eiddgar ac yr oedd yn argyhoeddedig mai'r Gymraeg oedd iaith Eden. Medrai brofi hynny, yn ôl Hywel Tudur, drwy gyfeirio at enwau plant Adda:

*Pan anwyd y plentyn cyntaf dywedodd wrth Efa: 'Onid ydi o'n gain' a galwyd ef yn Cain. Ystyr Abel ydyw ab ail, neu ail fab. Wedi colli Abel yr oedd Efa, gan hiraeth yn benbrudd a phenisel nes y ganwyd Seth. Sythodd Efa oherwydd yr amgylchiad, a siriolodd; ac er côf am y dylanwad a gafodd genedigaeth y trydydd mab ar ei fam - ei gwneud yn seth - galwyd ef yn Seth.*

Yn 1861 sicrhaodd y Cymro ymneilltuol, rhyddfrydol, hwn gryn fesur o anfarwoldeb iddo'i hun. Ar y dydd olaf o Ragfyr y flwyddyn honno fe ddeuai aer Glynllifon i'w oed. I anrhydeddu'r achlysur pwysig hwn rhoes William Griffith anner dew yn anrheg iddo. Oherwydd ei feddwl o'r aer neu o'r anner neu o Hu Gadarn, neu o'r tri, efallai, cafodd dynnu ei lun gyda'r anifail.

Yn ddamweiniol hollol daeth copi o'r llun hwnnw i'm meddiant yn ddiweddar. Mae ar ddalen o bapur hen a brau yn mesur tua phedair modfedd ar ddeg wrth ddeg ac mae'n amlwg ei fod wedi bod mewn ffrâm ar un adeg.

Deallaf bellach fod llun arall wedi ei dynnu o Hu Gadarn, gyda'i gymydog Dafydd Williams, Yr Ynys. Yn y llun hwnnw dangosir y ddau yn arbed bywyd capten llong oedd wedi ei hyrddio ar ddarn o graig i'r traeth dan Tŷ Mawr.

Dyma'r geiriau sydd mewn print bras o dan y llun o'r anner dew: *Presented to the HONOURABLE T. J. WYNN, OF GLYNLLIFON PARK, ON HIS COMING OF AGE THE 31st OF DECEMBER, 1861, BY HIS WELLWISHER, WM GRIFFITH OF TŶ MAWR, CLYNNOG.'*

Mewn print manach ceir: *'Drawn on stone by J. C. Rowland, from a photograph by H. J. Hughes and lithographed by H. J. Humphreys, Caernarfon.'*

Ymddengys mai cael ei lladd fu hanes yr anner, a William Griffith yn rhannu ei chig i dlodion Clynnog. Tybed ai ei syniad ef ynteu syniad aer Y Glyn oedd y weithred honno?

Mae'n bur debyg fod gan ŵr Tŷ Mawr fwy nag un rheswm dros anrhegu Thomas John Wynn ar gyrraedd ei un ar hugain oed. Yn un peth, yr oedd yn denant ar un o ffermydd mwyaf stad Glynllifon, a'i harwynebedd yn gant a saith o erwau.

Mae'n eithaf posibl, hefyd, i Hu Gadarn benderfynu rhannu'r cig i'r tlodion am fod ei gydwybod yn poeni ychydig arno. Yn ôl dyddiadur John Solomon Williams, Brynaerau, a gedwir yn llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor, ar y pedwerydd o Ebrill y flwyddyn flaenorol dedfrydwyd morwyn Tŷ Mawr a pherthynas iddi i ddeuddeng mis o garchar yr un, y naill am ladrata cig o gartref ei meistr, a'r llall am ei dderbyn ganddi.

Efallai fod y digwyddiad hwnnw wedi deffro'i feddwl i sylweddoli trueni'r anghenus yn ei fro.

* * *

OND MAE'N bur debyg ei fod hefyd yn dymuno rhannu rhialtwch pen blwydd aer Y Glyn gydag eraill o blwyfolion amlwg y dydd. Nid oedd neb llai nag Eben Fardd am roi ei deyrnged yntau i'r Anrhydeddus Thomas John Wynn. Lluniodd iddo gerdd yn dwyn y teitl 'Dyfodiad Etifedd Glynllifon i'w oed, Rhag. 31, 1861.'

Pan ddaeth y diwedd i Hu Gadarn ei hun ar y pymthegfed o Fai 1877, nid mewn mynwent eglwys y claddwyd ef, ond ym mynwent y Methodistiaid yn Llanllyfni. Ar ei fedd mae cistfaen urddasol y tu mewn i reiliau addurniedig o haearn. Ar y maen ceir dau englyn beddargraff o waith Morwyllt, buddugol yn Eisteddfod Caernarfon 1877.

Gwasanaethai pedwar o bregethwyr ymneilltuol yn angladd 'Gŵr Tŷ Mawr' gan gynnwys y Parch R. O. Williams, Cefnleisiog, Llŷn, perthynas i Catherine Griffith.

### YN EISIAU

*Rwy'n ceisio casgliad cyflawn o 'Cyfres y Goleuni' gan Owen Evans. Mae'r canlynol eisoes yn fy meddiant:*

*Rhif 2: Damhegion yr Arglwydd Iesu; Rhif 3: Oriau gyda'r Iesu; Rhif 5: Geiriau Olaf Iesu Grist. Fe'u cyhoeddwyd gan Hughes a'i Fab, Wrecsam, rhwng 1868 ac 1899.*

*Cysyllter â Vernon Owen, Beddgwenan, Llandwrog (Ffôn: Llanwnda 831048).*